**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD**
**16 GORFFENNAF 2020**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd drwy fynychu o bell ddydd Iau, 16 Gorffennaf 2020.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Hilary McGuill (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Paul Cunningham, Jean Davies, Rob Davies, Andy Dunbobbin, Carol Ellis, Gladys Healey, Cindy Hinds, Mike Lowe, Dave Mackie, Ian Smith, Martin White, David Williams a David Wisinger

**YMDDIHEURIADAU:** Uwch Reolwr (Diogelu a Chomisiynu), Uwch Reolwr (Plant a Gweithlu) a'r Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Christine Jones, (Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol); Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol); Uwch-reolwr, (Gwasanaethau Integredig, Arweinydd Oedolion) a Swyddog Cynllunio a Datblygu, Comisiynu a Pherfformiad.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau ac Addysg a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## 60. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 61. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2020 a 10 Chwefror 2020, fel y cawsant eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Andy Dunbobbin a Jean Davies.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 62. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) yr adroddiad blynyddol statudol yn crynhoi ei farn ar berfformiad swyddogaethau gofal cymdeithasol y Cyngor a blaenoriaethau ar gyfer gwella. Byddai'r adroddiad – a gynhyrchwyd mewn arddull electronig gan Double Click Design & Print – yn helpu i hwyluso gwerthusiad perfformiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Wasanaethau Cymdeithasol.

Cafodd Aelodau eu cyflwyno i Emma Murphy, y Swyddog Cynllunio a Datblygu, Comisiynu a Pherfformiad, oedd yn disgrifio'r dull i werthuso deilliannau o flaenoriaethau y llynedd a nodi blaenoriaethau ar gyfer 2020/21. Wrth fanylu'r heriau a chyflawniadau, roedd yr adroddiad yn amlygu ymrwymiad a

gwerthoedd y sawl oedd yn gweithio o fewn gofal cymdeithasol i wneud gwahaniaeth i bobl yn Sir y Fflint.

Roedd y Cadeirydd yn canmol swyddogion a Double Click am yr adroddiad.

Rhoddodd y Prif Swyddog drosolwg o brif gyflawniadau gan gynnwys agor canolfan gofal dydd Hwb Cyfle oedd ar y rhestr fer mewn tri chategori Gwobrau Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru (CEW) 2020. Roedd hefyd yn amlygu llwyddiant parhaus gyda'r rhaglen Cynnydd i Ddarparwyr ac estyniad parhaus cartref gofal Tŷ Marleyfield. Lansio'r tîm Therapi Amlsystematig – menter newydd mewn partneriaeth gyda Wrecsam a'r model cyntaf o'r math yma yng Nghymru – byddai'n helpu i wella bywydau pobl ifanc.

Fel Aelod o'r Cabinet, cyfeiriodd y Cynghorydd Jones at yr heriau sy'n codi o'r pandemig COVID-19 ac roedd yn canmol cyflawniadau ac ymroddiad timau o fewn y gwasanaeth i gefnogi oedolion a phobl ifanc. Aeth ymlaen i ddiolch i Double Click oedd yn paratoi i ailagor eu busnes.

Fel Aelod o'r Bwrdd Double Click, roedd y Cynghorydd Cunningham yn datgan ei falchder yn y busnes ac yn diolch i'r Cyngor am ei gefnogaeth.

Wrth groesawu canfyddiadau'r adroddiad, roedd y Cynghorydd Mackie yn codi materion ar fformatio a chyflwyniad y ddogfen yr oedd swyddogion yn dweud oedd yn derbyn sylw. Roedd swyddogion yn nodi cais y Cynghorydd Mackie y dylai adroddiadau fod yn hygyrch ar bob math o ddyfeisiau electronig cludadwy, gan gynnwys ffonau symudol a byddai dangos data y tu ôl i ganrannau a chymhariaeth gyda pherfformiad blaenorol neu genedlaethol yn helpu i ddarparu cyd-destun.

Dywedodd y Cynghorydd Ellis bod diffyg gwybodaeth ar gefnogaeth i unigolion gydag awtistiaeth yn yr adroddiad ac roedd yn mynegi pryderon am achos penodol yn ymwneud â thynnu gwasanaethau arbenigol y tu allan i'r sir.

Mewn ymateb, dywedodd yr Uwch-Reolwr (Gwasanaethau Integredig, Arweinydd Oedolion) y byddai'r ddogfen yn cael ei hadolygu i ddarparu mwy o eglurder ar wasanaethau awtistiaeth. Rhoddodd sicrwydd bod y mater ynglŷn â'r cyfleuster arbenigol yn derbyn sylw a bod swyddogion yn ymgysylltu gyda theuluoedd yr effeithiwyd arnynt.

Mynegodd y Cynghorydd Hinds ei gwerthfawrogiad i'r tîm am eu gwaith yn ystod y cyfnod heriol diweddar. Byddai'r Prif Swyddog yn cyfleu hyn i'r timau.

Cynigiodd y Cynghorydd White gymeradwyo'r argymhelliad, ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Dunbobbin.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r Adroddiad Blynyddol.

## 63. CEFNOGAETH A DDARPERIR I GARTREFI GOFAL SIR Y FFLINT YN YSTOD PANDEMIG COVID-19

Cyflwynodd yr Uwch-Reolwr (Gwasanaethau Integredig, Arweinydd Oedolion) adroddiad ar y camau a gymerir gan Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu cefnogaeth hanfodol i'r sector cartref gofal lleol.

Cyn yr achosion COVID-19, profwyd pwysau cenedlaethol ar gyllid a recriwtio yn y sector gofal yn Sir y Fflint. Yn ystod y pandemig, roedd y Cyngor wedi cryfhau partneriaethau ymhellach gyda darparwyr drwy lefel digynsail o gefnogaeth i'w 27 o gartrefi gofal i gefnogi rhai o'r preswylwyr mwyaf diamddiffyn. Roedd y trefniadau cadarn a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig yn cynnwys Swyddog Monitro Contract i gysylltu gyda phob cartref gofal a'r system 'pwynt rhannu' i rannu gwybodaeth gyda rhanddeiliaid allweddol. Roedd cyfarfodydd telegynhadledd amlasiantaeth gyda darparwyr gofal i godi materion a rhannu canllawiau cenedlaethol newidiol wedi derbyn ymateb da a byddent yn parhau.

Ar y dulliau profi, roedd holl weithwyr a phreswylwyr cartrefi gofal wedi eu profi rhwng Mai a Mehefin boed yn symptomataidd ai peidio. Ers hynny, roedd gweithwyr yn holl leoliadau cartref gofal, gan gynnwys gofal ychwanegol wedi eu profi bob wythnos; byddent yn cael eu profi yn llai aml os byddai'r gyfradd 'R' yn gwella. Roedd y drefn os byddai yna brawf positif mewn cartref gofal angen i'r sefydliad cyfan gael prawf a dechrau cyfnod ynysu. Er bod 16 o gartrefi gofal yn Sir y Fflint mewn sefyllfa 'coch' (achosion positif) pan oedd y pandemig ar ei waethaf, roedd y nifer wedi gostwng nawr i dri. Pan oedd y pandemig ar ei waethaf roedd timau o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol wedi eu trefnu i ddarparu cefnogaeth ychwanegol mewn cartrefi gofal ac roedd trefniadau 'ar alwad' ar benwythnos wedi ymestyn i gynnwys uwch swyddogion.

Cytunodd yr Uwch-Reolwr i rannu sleidiau cyflwyniad ar ddarpariaeth cyfarpar diogelu personol yn dilyn y cyfarfod. Roedd cyflenwadau yn cael eu dosbarthu dwywaith yr wythnos i'r 27 sefydliad cartref gofal gan y grŵp o wirfoddolwyr a hyfforddwyd mewn safonau Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd effeithiolrwydd y dull hwn drwy Wasanaeth Offer Cymunedol Gogledd Ddwyrain Cymru wedi'i gydnabod fel arfer orau mewn adroddiad cenedlaethol a rhannwyd gyda gwasanaethau ar draws Cymru.

Defnyddiwyd cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi taliad 10% i gartrefi gofal o ganol mis Mawrth hyd at ddiwedd Mehefin, ar gyfer costau ychwanegol sy'n codi o'r pandemig fel cryfhau dulliau glanhau, goruchwylio gweithwyr ac ati.

Roedd y Cadeirydd yn croesawu parhad cyfarfodydd o bell wythnosol a dychwelyd canlyniadau profion yn amserol. Mewn ymateb i gwestiwn ar gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithwyr cartref gofal, dywedodd yr Uwch-Reolwr fod Grŵp Tasg a Gorffen yn adolygu canllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar ddyraniad.

Roedd y Cynghorydd White yn canmol safbwynt y Cyngor ar gau cartrefi gofal yn gynnar yn y Sir oedd wedi helpu i leihau lledaeniad yr haint.

Yn ystod y drafodaeth, roedd aelodau wedi mynegi eu gwerthfawrogiad i'r timau o fewn y Cyngor a chartrefi gofal am eu hymdrechion i gadw preswylwyr yn ddiogel. Gofynnodd y Cynghorydd Gladys Healey i'w diolch gael ei drosglwyddo i'r Uwch Reolwyr Diogelu a Chomisiynu a Phlant a Gweithlu am helpu preswylwyr yn ei ward.

Fel yr awgrymwyd gan y Cynghorydd Cunningham, cytunwyd y byddai llythyr yn cael ei anfon gan y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor at wirfoddolwyr oedd wedi helpu i ddosbarthu cyfarpar diogelu personol i gartrefi gofal.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Smith, eglurodd yr Uwch-Reolwr bod cyfarpar diogelu personol wedi dechrau cael ei ddosbarthu i gartrefi ar 16 Mawrth.

Canmolodd y Cynghorydd Elis y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog am gynnal eu barn ar yr angen i brofi mewn ysbytai cyn rhyddhau i gartrefi gofal.

Dywedodd y Prif Swyddog fod Llywodraeth Cymru wedi cefnogi safbwynt Sir y Fflint i helpu i leihau lledaeniad haint. Talodd deyrnged i'w uwch reolwyr a thimau am gwrdd â holl ddisgwyliadau yn eu cefnogaeth i gartrefi gofal yn ystod y pandemig.

Fel Aelod o'r Cabinet, mynegodd y Cynghorydd Jones ei balchder yn y sector gofal cymdeithasol gan gynnwys rheolwyr cartref gofal a gweithwyr gofal cymdeithasol, ynghyd ag uwch dîm rheoli'r Cyngor. Dywedodd fod y gefnogaeth a ddarparwyd i gartrefi gofal yn Sir y Fflint wedi bod yn dda iawn.

Cynigiodd y Cynghorydd Dunbobbin gymeradwyo'r argymhelliad, ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Hinds.

**PENDERFYNWYD:**

Bod camau'r Cyngor i gefnogi'r Sector Cartref Gofal yn cael ei gymeradwyo.

## 64. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben am 3pm)

…………………………
**Y Cadeirydd**